Roedd chwilio am wybodaeth bron yn amhosib. Fel arfer y dyddiau hyn bydd pobl fel fi yn mynd ar-lein ac unwaith y byddaf yn teipio rhywbeth fel blwydd-dal neu bargeinion blwydd-dal gorau neu eiriau tebyg bydd rhai cwmnïau'n llenwi'r peiriannau chwilio ac yn rhagfarnllyd ac yn gwerthu eu cynnyrch eu hunain.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn chwilio drwy'r farchnad gyfan ac yn bodloni'ch hun eich bod wedi cael y fargen orau pa ddarparwr bynnag fyddwch chi'n ei ddewis yn y pendraw.

Gall pobl gael eu hannog i gynnig rhai cynnyrch penodol. Felly gwnewch ychydig o ymchwil eich hun, chwiliwch am y pethau gorau i fuddsoddi ynddynt a gallwch ofyn cwestiynau i'r bobl hynny wedyn oherwydd, wedi'r cwbl, eich arian chi yw'r cyfan.

Yn fy marn i roedd yn beth doeth cael cyngor gan rywun nad yw ynghlwm ag unrhyw gwmni er mwyn iddo fedru cynnig y darparwr gorau ar eich cyfer chi a'ch anghenion ar y pryd. Pwy bynnag yw eich darparwr pensiwn, ewch i weld beth sydd ganddo i'w gynnig i chi yn gyntaf, yna edrychwch ar-lein i weld a oes unrhyw beth gwell ar gael yno.

Ond yn y pen draw, rhaid cael eich cynghorydd ariannol wrth eich ochr a bydd ef yn dweud wrthych chi pa un yw'r gorau ar eich cyfer neu os gall ddod o hyd i rywbeth gwell.

Cymerais i gyngor gan arbenigwyr ariannol fy ngŵr a chefais gymaint o wybodaeth ganddynt fel petawn i'n sôn am filiwn o bunnoedd neu 40,000 neu 50,000 o bunnoedd, a chefais gyngor ynglŷn â'r gwahanol ffyrdd o fynd o'i chwmpas hi. Ac yn wir cefais fy mhlesio'n arw.